



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/CW

5 Mehefin 2018

Annwyl Mick

Yn dilyn y llythyr oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar 3 Mehefin ynglŷn â Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a materion cysylltiedig, roeddwn yn awyddus i egluro mewnbwn Comisiwn y Cynulliad ac unrhyw fwriad i'r perwyl hynny.

Nododd yr ysgrifennydd Gwladol yn ei lythyr bod ei adran wedi ymgynghori gyda swyddogion Comisiwn y Cynulliad ar Ganllaw Datganoli 18. Noder bod y trafodaethau yma wedi eu seilio ar ddealltwriaeth y byddai angen diwygiadau pellach i Ganllaw Datganoli 18 yn hwyrach yn y flwyddyn er mwyn rhoi ystyriaeth i ymadael a'r UE.

Rwy'n awdurdodi swyddogion Comisiwn y Cynulliad i weithio ar sail gyfrinachol er mwyn cynghori rhanddeiliaid, gan gynnwys Swyddfa Cymru, ar faterion technegol sy'n berthnasol i'r setliad datganoli; a hynny yn yr ysbryd o gynnig arbenigedd a chymorth gyda'r amcan o fagu dealltwriaeth gyffredin. Dyw hyn ddim yn awgrymu unrhyw gymeradwyaeth gwleidyddol neu swyddogol tuag at y Canllaw Datganoli neu unrhyw ran ohono.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403